

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

4 Rhagfyr 2020







OGL © Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

4 Rhagfyr 2020

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Fel yr adroddwyd gan SAGE (3 Rhagfyr 2020), mae gwerth $R_t$ yng Nghymru rhwng 0.8 ac 1.1 (ychydig yn uwch na'r wythnos diwethaf), ac amcangyfrifir bod yr epidemig naill ai'n crebachu -3% neu'n cynyddu 1% y dydd. Mae'r amcangyfrifon consensws hyn yn dangos amrywiaeth o werthoedd, ond mae'r newidiadau a welwyd mewn dangosyddion allweddol yn dangos bod Cymru bellach mewn cyfnod o dwf.

- Fel ag y mae ar 3 Rhagfyr, mae nifer yr achosion newydd wedi cynyddu ym mhob grŵp oedran, yn enwedig ymhlith pobl 85 oed a hŷn. Mae positifedd y profion COVID-19 (y gyfran o gyfanswm y profion a ddychwelwyd yn bositif) yn uwch na'r dangosydd sbardun coch, ar 15.1%.

- Ar 4 Rhagfyr, mae nifer y bobl sydd yn yr ysbyty â COVID-19 wedi'i gadarnhau yn parhau'n uwch nag uchafbwynt mis Ebrill ac mae'n uwch na'r dangosydd sbardun coch. Yn gyffredinol, mae'r defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion heb COVID-19) hefyd yn parhau'n uwch na'r dangosydd sbardun coch. Mae data'n dangos nad yw cymhareb staffio 1:1 ar gyfer cleifion mewn unedau gofal dwys yn bosibl yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd Cymru.

- Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 27 Tachwedd 2020, mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos arwyddion bod nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â COVID-19 wedi gostwng ychydig. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd â data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae marwolaethau o bob achos yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd yng Nghymru.

- Mae data Astudiaeth Heintiadau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos 22 i 28 Tachwedd yn dangos bod y gyfradd positifedd yn y boblogaeth gymunedol yng Nghymru wedi gwastatáu ar ôl disgyn o uchafbwynt ddiwedd mis Hydref.

- Nid yw'r data symudedd diweddaraf yn dangos llawer o newid yng Nghymru o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae symudedd sy'n gysylltiedig â manwerthu ac archfarchnadoedd yn dangos tuedd ar i fyny. Noder nad yw'n bosibl pennu a yw symudedd yn uwch na'r adeg hon y llynedd, oherwydd bod y data'n dechrau ym mis Chwefror.

- Dengys tystiolaeth y gall y canlynol leihau'r risg o drosglwyddo drwy gyswllt corfforol uniongyrchol, diferion feirysol ac aerosolau o'r aer ac ar arwynebau

halogedig - cyfyngu neu osgoi rhyngweithio â phobl eraill am 7-10 diwrnod cyn cyfarfod rhywun; creu swigod llai ac unigryw gyda llai o aelwydydd; golchi dwylo, glanhau arwynebau, cadw pellter cymdeithasol o 2m a gwisgo masg lle bo angen; gwell opsiynau o ran awyru a chyfarfodydd awyr agored; a chynllunio ymlaen llaw i benderfynu sut i leihau risg.

- Mae'r papurau canlynol wedi'u cyhoeddi gan y Grŵp Cyngor Technegol:
  - Papur yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â phyllau nofio, tybiau poeth, sawnas ac ystafelloedd stêm
  - Crynodeb o'r dystiolaeth ar gostau a manteision a mesurau lliniaru posibl ar gyfer mesurau i fynd i'r afael â COVID-19 yng Nghymru
  - Papur ar effeithiolrwydd ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol yn yr Ardaloedd Diogelu Iechyd Lleol a'r Cyfnod Atal Byr yng Nghymru
  - Datganiad ynghylch ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig
- Cyhoeddir papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol yma.


**Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu**

- Mae SAGE yn amcangyfrif (3 Rhagfyr) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng -0.03 a 0.01 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng -3% ac 1% y dydd.
- Mae amcangyfrif mwyaf diweddar SAGE (3 Rhagfyr) o'r rhif atgynhyrchu $R_t$ ar gyfer Cymru yn rhag-weld y bydd rhwng 0.8 ac 1.1, sydd ychydig yn uwch na'r wythnos diwethaf. Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae gwerth consenswS SAGE ar gyfer $R_t$ yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o fodelau sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau, a data o'r arolygon cyswllt. Mae gan lawer o'r dangosyddion hyn gyfnod oedi o 1-3 wythnos o'r adeg y pan fyddent yn nodi newid mewn heintiadau.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon ynghylch $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, graddfa'r profi sydd a gael a – gan fod ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau – y modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn dal i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

## Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion am bob 100,000 o bobl mewn cyfnod o 14 diwrnod yn wythnosau 47-48.




- Erbyn diwedd wythnos 48 (a ddaeth i ben ddydd Sul 29 Tachwedd 2020), roedd llawer o wledydd wedi dechrau gweld sefydlogi neu leihad yn y cyfraddau hysbysu am achosion, positifedd profion a derbyniadau newydd i ysbytai/unedau gofal dwys. Mae gwerthoedd absoliwt y dangosyddion hyn yn parhau'n uchel, hyd yn oed os ydynt yn sefydlog neu'n gostwng, gan awgrymu bod trosglwyddo'n dal i fod yn gyffredin.

- Mae cyfraddau achosion ymhlith grwpiau oedran hŷn a chyfraddau marwolaethau yn dal i gynyddu mewn 13 o wledydd, tra bod 11 o wledydd yn parhau i weld cynnydd mewn derbyniadau a/neu ddefnydd gwelyau mewn ysbytai neu unedau gofal dwys oherwydd COVID-19.


- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data, ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael yma.

**Canlyniadau astudiaeth heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol**

- Mae data arolwg heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos ei bod yn ymddangos bod positifedd profion wedi gwastatáu yn yr wythnos ddiweddaraf (22 i 28 Tachwedd 2020), ar ôl disgyn o uchafbwynt ddiwedd mis Hydref.

- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai hwy yw'r unig amcangyfrifon o heintiadau sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nad yw ffactorau eraill fel capasiti profi neu nifer y bobl sy'n dod i gael eu profi yn effeithio arnynt. Canlyniadau ar gyfer aelwydydd preifat yn unig yw'r rhain – y 'boblogaeth gymunedol' – ac nid ydynt yn berthnasol i bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal na lleoliadau sefydliadol eraill.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 18 Hydref 2020 ar draws pedair gwlad y DU.




- Ar gyfer yr wythnos 22 i 28 Tachwedd, roedd gan gyfartaledd o 0.60% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy o 95: 0.40% i 0.84%).


- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 170 (cyfwng credadwy o 95: 1 o bob 250 i 1 o bob 120), neu 18,100 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95: 12,100 i 25,500).

- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

- Cyhoeddir canlyniadau llawn yma.

## Nifer yr achosion


- Mae'r ffigur isod yn dangos bod nifer yr achosion o COVID-19 y dydd a gadarnhawyd (swm treigl o 7 diwrnod am bob 100,000 o'r boblogaeth) yn gostwng, ond dilynwyd hyn gan gynnydd mewn achosion.




**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 4 Rhagfyr 2020

## Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd am bob 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu'r sampl a grŵp oedran.




**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 01/12/2020

- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 3 Rhagfyr, mae nifer yr achosion wedi cynyddu ym mhob grŵp oedran, gyda'r nifer mwyaf o achosion i'w gweld ymhlith pobl 85 oed a hŷn.

## Marwolaethau

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau dros gyfnod treigl o 7 diwrnod a gofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel ag yr oeddent ar 3 Rhagfyr 2020, sy'n dangos bod marwolaethau wedi gostwng o tua 190 o farwolaethau'r wythnos, a'u bod ers hynny wedi amrywio tua 150  i160 o farwolaethau yr wythnos yn yr wythnosau diwethaf.




**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 03/12/2020

- Mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu drigolion Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau COVID-19 a amheuir ac a gadarnhawyd gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er ei fod yn destun oedi, mae'n fwy cyflawn.


- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau a gofrestrwyd fesul wythnos hyd at 27 Tachwedd 2020, ac yn dangos arwyddion o ostyngiad.




**Data ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Yng Nghymru, gostyngodd nifer y marwolaethau a oedd yn ymwneud â COVID-19 o 223 o farwolaethau (Wythnos 47) i 218 o farwolaethau (Wythnos 48), tra bod cyfanswm nifer y marwolaethau yn Wythnos 48 151 o farwolaethau yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.


- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau o bob achos a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru rhwng 28 Rhagfyr 2019 a 27 Tachwedd 2020.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt**

- Cesglir y data canlynol bob pythefnos a nodwyd y data mwyaf newydd yr wythnos diwethaf. Adroddir amdanynt yma er gwybodaeth; bydd data newydd ar gael i adrodd amdanynt yr wythnos nesaf.
- Mae data diweddaraf IPSOS MORI ar gyfer y cyfnod 20-23 Tachwedd yng Nghymru yn dangos gostyngiadau mewn rhai categorïau yn dilyn diwedd y cyfnod atal byr. Roedd gostyngiadau yn nifer y bobl a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithio nad yw'n hanfodol, o'i gymharu â phythefnos yn ôl (yn ystod y cyfnod atal byr). Roedd categorïau eraill (fel osgoi trafnidiaeth gyhoeddus a gweithio gartref) yn debyg i'r hyn oeddent bythefnos yn ôl. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.





- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws ar gyfer y cyfnod 16-22 Tachwedd yn dangos bod 43% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 43% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da’. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 41% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i ganlyniadau astudiaeth gymdeithasol Covid. Dywedodd 31% fod pobl y tu allan i'w cartref/aelwyd estynedig a ganiateir yn dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 27% eu bod wedi bod i mewn yn nhai pobl eraill.

## Symudedd

- Nid yw'r data symudedd diweddaraf yn dangos llawer o newid yng Nghymru ar y cyfan, o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae data Apple sy'n cwmpasu cyfnod mwy diweddar na'r ffynonellau eraill yn dangos cynnydd mewn symudedd yn Lloegr oherwydd bod y cyfyngiadau symud wedi dod i ben.
- Mae symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru yn dangos bod symudedd 10% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 1 Rhagfyr. Mae hyn i fyny o 11% yr wythnos flaenorol. Canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle’r oeddent (yn agos at eu cartrefi) oedd 25%, ychydig yn is na'r wythnos flaenorol (26%). Mae'r ffigurau 'aros lle’r oeddent’ yn debyg i cyn y cyfnod atal byr, ond mae'r symudiad ychydig yn uwch (roedd tua 13% yn yr wythnos cyn y cyfnod atal byr). Y llinell sylfaen yw’r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.

- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 5 Rhagfyr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi lleihau ychydig o'r wythnos flaenorol i 93% o'r llinell sylfaen (o 94%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yn uwch na chyn y cyfnod atal byr (89%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded wedi lleihau ond mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debyg i'r hyn oeddent yr wythnos diwethaf o'u cymharu â'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Nid yw data symudedd Google hyd at wythnos 1 Rhagfyr yn dangos unrhyw newid yn y data preswyl (h.y. pobl yn treulio amser gartref) o'i gymharu â'r wythnos flaenorol ar 9% yn uwch na'r llinell sylfaen. Mae hyn yn debyg i cyn y cyfnod atal byr. Hefyd, nid yw gweithleoedd yn dangos unrhyw newid (ar 22% yn is na'r llinell sylfaen), yn debyg i'r hyn oeddent cyn y cyfnod atal byr (21% yn is). Mae manwerthu a hamdden (16% yn is na'r llinell sylfaen) ac archfarchnadoedd a fferylliaeth (3% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 5%) ill dau yn dangos cynnydd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus a pharciau hefyd yn dangos cynnydd bach o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




- Mae data ffôn symudol dienw a chyfanredol gan gwmni O2 hyd at 27 Tachwedd yn dangos lleihad bach mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenoro. Cynyddodd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru 1 pwynt canran i 26% yn is na'r

llinell sylfaen ac maent yn debyg i'r lefelau a welwyd cyn y cyfnod atal byr. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

**Ymchwil**

- Ar hyn o bryd mae 7610 o gleifion o Nghymru wedi cael eu recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, cynnydd o 79 yn y 7 diwrnod diwethaf.

**Gwyliadwriaeth wythnosol COVID-19 a chrynodeb epidemiolegol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Ar 03 Rhagfyr 2020:

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Yn gyffredinol, roedd ymgynghoriadau â meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt, ond roedd ymgynghoriadau ar gyfer amheuaeth o COVID wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.

- Bu cynnydd yn genedlaethol yn nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd ym mhositifedd y profion, o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Yn ystod wythnos 48, cynyddodd nifer yr achosion ym mhob grŵp oedran, gyda nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith pobl 85+ oed.

- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a phositifedd y profion wedi cynyddu mewn llawer o ranbarthau byrddau iechyd yng Nghymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

- Ar lefel genedlaethol, gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty, o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Fodd bynnag, gostyngodd nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion mewnol yn yr ysbyty a'r nifer a dderbyniwyd i wardiau gofal critigol o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol o hyd, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau o gynnydd yn gyffredinol yn

nifer yr achosion a gadarnhawyd yn y pythefnos diweddaraf, yn dilyn gostyngiadau yn y pythefnos blaenorol.

- Mae niferoedd uchel o ddigwyddiadau'n parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau ysgol.

- Roedd cyfnod atal byr mewn grym ledled Cymru rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd.

- Roedd gostyngiad wedi'i weld yn ystod yr wythnosau diwethaf yn nifer yr achosion a gadarnhawyd, ond mae nifer yr achosion wedi cynyddu eto yr wythnos hon o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae marwolaethau o bob achos wedi cynyddu o gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.


- Mewn marwolaethau lle mae gwybodaeth ar gael o wyliadwriaeth marwolaethau cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru, clefyd cronig y galon, diabetes a chlefyd anadlol cronig yw'r ffactorau risg a gofnodir amlaf (mewn 35%, 28% a 23% o farwolaethau yn y drefn honno).

Mae dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yma ac mae'n cynnwys dadansoddiad ar gyfer awdurdodau lleol.

## Defnydd ysbytai

- Mae'n bwysig nodi bod cyfanswm nifer y gwelyau sydd ar gael mewn unedau gofal dwys wedi gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf gan fod Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn adrodd mewn modd mwy cyson o ran rhoi gwybod yn unig am y gwelyau sydd ar gael mewn unedau gofal dwys ac y gellir eu staffio.

- Mae'r ffigur isod yn dangos y defnydd o ysbytai COVID-19 a gadarnhawyd dros don gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 4 Rhagfyr).




- Mae'r Ffigur isod yn dangos defnydd uned gofal dwys COVID-19 (ICU) a gadarnhawyd dros don gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 4 Rhagfyr).




- Ar 4 Rhagfyr, nid oedd gofal 1:1 i bob claf mewn uned gofal dwys yn bosibl yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd (roedd prysurdeb unedau gofal dwys yn 103% ar gyfer gofal 1:1, gyda chyfartaledd wythnosol o 105% mewn defnydd gwelyau ledled Cymru; gweler y tabl isod).

- Mae'r tabl isod yn manylu ar ddefnydd cyffredinol gwelyau unedau gofal dwys ar draws byrddau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys defnydd cyffredinol o unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae'n bosibl eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru). Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.


- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.

- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 190 o


welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

| Bwrdd Iechyd | Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 % | Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio) | Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt | Cleifion sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **82%** | **103%** | **3** | **61** |
| Aneurin Bevan (ABUHB) | 79% | 83% | 0 | 8 |
| Betsi Cadwaladr (BCUHB) | 66% | 104% | 1 | 2 |
| Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) | 71% | 100% | 1 | 17 |
| Caerdydd a'r Fro (CVUHB) | 89% | 111% | 0 | 10 |
| Hywel Dda (HDUHB) | 89% | 109% | 1 | 7 |
| Bae Abertawe (SBUHB) | 107% | 107% | 0 | 17 |


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Lle y bo hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

